

Gwybodaeth Cefndir Adran 106 Y Rhws

Mae'r cytundebau yn amlinellu'n gyfreithiol y gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer darparu neu wella cyfleusterau (parc, adeilad neu strwythur) neu wasanaethau o fewn Y Rhws, sy'n ateb anghenion cymunedol ac sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys un ai darparu cyfleusterau newydd yn ward ffiniol y Rhws neu wella un o'r cyfleusterau presennol canlynol:

- a) Llyfrgell Y Rhws
- b) Ysgol Gynradd Y Rhws
- c) Neuadd Ceri Road, Pafiliwn a chyfleusterau cymunedol
- d) Clwb Cymdeithasol Y Rhws a'r Cyffiniau
- e) Neuadd Gymunedol Y Rhws;
- f) Canolfan Gymunedol Parc Celtic
- g) Clwb Hedfan Y Rhws
- h) Clwb Achubwyr Bywyd Y Rhws
- i) Parc Gwyliau a Hamdden a Phwll Nofio Fontygary

Gellir defnyddio'r arian hefyd i wella cyfleusterau chwarae presennol.

Noder, pwrpas cyfraniadau Adran 106 yw helpu i leddfu'r effeithiau sy'n codi o ganlyniad i'r datblygiadau newydd, a sicrhau bod digon o ddarpariaeth a chyfleusterau yn yr ardal ar gyfer preswylwyr y datblygiad newydd hwnnw yn y dyfodol. Felly, dim ond ar gyfer cyfleusterau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan feddianwyr yn y dyfodol y bydd cyfraniadau'n cael eu defnyddio.

Er mwyn rhoi syniad i'r gymuned o'r hyn y gellir ei gyflawni gyda'r arian yma, rydym wedi dethol dewis o [barciau sydd wedi'u huwchraddio](#) yn ddiweddar.

Mae'r Cyngor felly yn cynnig bwrw ymlaen mewn dau gam. Dymuna'r Cyngor glywed eich barn ynghylch y rhandaliad cyntaf (£86,876) a dderbyniwyd, er mwyn gallu blaenoriaethu'r gwariant hwn yn gyntaf. Carem hefyd glywed eich barn ynghylch y cyfleoedd tymor hir ar gyfer y £343,009 ychwanegol, a ddaw i'n rhan maes o law.